



Cyngor Bwrdeistref Sirol
MERTHYR TUDFUL
MERTHYR TYDFIL
County Borough Council



2019/20 Fersiwn 3.0

DATGANIAD LLES

1. Rhagair

- 1.1. Ar ran Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful, rwy'n falch o gyflwyno ein trydydd datganiad Lles sy'n nodi ein hamcanion lles lleol ar gyfer y gymuned o 2017 i 2022. Datblygwyd yr amcanion o ganlyniad i fwy na blwyddyn o waith. Roedd yr ymarfer hwn yn cynnwys ymgynghori helaeth ac ymgysylltu â chymunedau a rhanddeiliaid eraill.
- 1.2. Dros y ddwy flynedd ddiwethaf mae'r Cyngor wedi newid sut mae'n gweithio i gyflawni'r amcanion. Wrth wneud hynny, rydym yn dal i nodi pwyntiau dysgu allweddol ac yn symleiddio ein prosesau ac amcanion i ganolbwyntio ymhellach ar ganlyniadau ymgynghori ac ymgysylltu a'n rhanddeiliaid. Fel y nodwyd y llynedd nid yw ein hamcanion wedi newid ond wedi'i canolbwyntio'n fwy ar y materion dan sylw. Rwy'n dal yn hyderus bod ein hamcanion lles yn gosod Sylfaen ar gyfer Cynllun Cyngor Effeithiol
- 1.3. Mae ein hamcanion lles yn ceisio sicrhau gwelliannau parhaus yn lles economaidd, cymdeithasol, diwylliannol ac amgylcheddol y bobl sy'n byw ac yn gweithio ym Merthyr Tudful, yn awr ac yn y dyfodol. Mae ein ffocws yn parhau i fod ar gefnogi'r bobl pan fo'i angen fwyaf ac yn eu galluogi â'r sgiliau sydd eu hangen arnynt i arwain bywydau cyflawn. Gwneir hyn trwy newid ein dull o ganolbwyntio ar y pum ffordd o weithio fel y nodir yn Neddf Lles Dyfodol Cenedlaethau (Cymru) 2015. Fel y cyfryw canolbwyntiwn ar symud i ffwrdd rhag bod yn adweithiol a dod yn ataliol trwy feddwl dros y tymor hir tra'n cynnwys, cydweithio ac integreiddio â chymunedau ('pum ffordd o weithio').
- 1.4. Paratowyd ein hamcanion lles a'u cyflwyno mewn cyfnod o her a newid. Nid yw gwneud pethau gwahanol, gan weithio'n doethach, a gwneud defnydd gwell o'n hasedau erioed wedi bod mor bwysig. Mae'r Cyngor yn bwriadu gwneud defnydd effeithiol o Ddeddf Lles Dyfodol Cenedlaethau (Cymru) 2015 i ddiogelu lles Merthyr Tudful yn awr ac ar gyfer y dyfodol
- 1.5. Mae'r Ddeddf yn cynnig cyfle inni weithio'n wahanol wrth gyflwyno Cynllun ein Cyngor. Byddwn yn gwneud hyn trwy ddefnyddio'r pum ffordd o weithio a sicrhau bod y saith nod lles bob amser wrth galon yr hyn a wnawn.

Gareth Chapman
Prif Weithredwr



2. Cyflwyniad

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

- 2.1. Mae'r Ddeddf yn ymwneud â gwella lles economaidd, cymdeithasol, diwylliannol ac amgylcheddol Cymru. Am y tro cyntaf yn ôl y gyfraith, mae gan gyrff cyhoeddus bwrpas cyffredin a gweledigaeth a rennir yn genedlaethol.
- 2.2. Mae'r Ddeddf yn rhoi saith nod lles ar waith i sicrhau ein bod ni i gyd yn gweithio tuag at gyflawni'r weledigaeth a rennir. Mae gan bob un o'r nodau ddisgrifydd i adeiladu dealltwriaeth gyffredin ([Atodiad I](#)).
- 2.3. Mae'r Ddeddf yn gosod dyletswydd gyfreithiol ar gyrff cyhoeddus i fabwysiadu'r egwyddor datblygu gynaliadwy¹ wrth bennu amcanion lles ac wrth gymryd camau i fodloni'r amcanion hynny. Yn ôl y Ddeddf, mae'r egwyddor datblygu gynaliadwy yn cael ei nodi gan y pum ffordd o weithio ([Atodiad II](#)).

Datganiad Lles

- 2.4. Yn ein datganiad lles, rydym yn nodi cwmpas pob amcan lles ac yn amlinellu pam yr ydym o'r farn y bydd cyfarfod y nod yn gwneud y gorau o'n cyfraniad tuag at gyflawni'r saith nod lles.
- 2.5. Mae'r Datganiad Lles yn nodi'n glir y cysylltiadau rhwng pob un o'n hamcanion lles a fydd yn helpu i sicrhau ymagwedd integredig a chydweithredol tuag at gyflawni pob un o'r saith nod lles.
- 2.6. Yn yr hir dymor, mae ein hamcanion lles yn ceisio sicrhau ein bod yn diogelu gwelliannau ar draws y pedwar piler o les (economaidd, cymdeithasol, diwylliannol ac amgylcheddol) i'r bobl sy'n byw ac yn gweithio ym Merthyr Tudful yn awr ac yn y dyfodol.

¹ Mae'r egwyddor datblygu gynaliadwy yn nodi pum ffordd o weithio i'n helpu ni i gydweithio'n well, osgoi ailadrodd camgymeriadau yn y gorffennol a mynd i'r afael â rhai o'r heriau hirdymor yr ydym yn eu hwynebu

Yr Egwyddor Datblygiad Gynaliadwy

- 2.7. Fel corff cyhoeddus, mae angen inni sicrhau bod y ffordd yr ydym yn gweithio yn cyd-fynd â'r egwyddor datblygu gynaliadwy. Mae'r ffordd yr ydym wedi cymhwyso'r egwyddor datblygu gynaliadwy wrth osod ac adolygu ein hamcanion wedi cynnwys:



Ymglymiad

Ymgysylltu â phobl sy'n ymweld, yn byw ac yn gweithio ym Merthyr Tudful wrth inni gynnal ein hasesiad lles. Roedd cyfranogiad lleol yn canolbwyntio ar ddeall lles personol a chynhyrchu gwybodaeth sy'n seiliedig ar gryfder trwy ofyn cwestiynau megis "Beth sy'n dda yn eich cymunedau?" a "Beth fyddai'n gwella'ch cymunedau?"



Cydweithredu

Buom yn cydweithio ag Uwch Swyddogion ar draws y Cyngor wrth ddadansoddi'r wybodaeth asesu a datblygu'r amcanion lles. Mae hyn yn ein helpu i godi ymwybyddiaeth a phrofiad ymarferol o'r pum ffordd o weithio ar draws gwasanaethau.



Integreiddio

Integreiddio adnoddau o fewn y Cyngor i wneud y gorau o'r sgiliau, y wybodaeth a'r ddealltwriaeth ar y cyd i helpu adeiladu amcanion lles a ddellir gan bawb.



Atal

Mae lleihau'r posibilrwydd o weithio seilo trwy gynnwys yr holl wasanaethau a all gyfrannu at gyflawni amcan lles wedi ein helpu i weithio'n wellsicrhau ffocws ar atal, a gwneud penderfyniadau sy'n fwt integredig a chysylltiol.



Hir Dymor

Mae defnyddio rhagamcanion poblogaeth y Fwrdeistref Sirol wedi helpu i ganolbwyntio ar yr amodau angenrheidiol sydd eu hangen yn yr hir dymor i godi a chadw poblogaeth oedran gweithio.

Ein Gweledigaeth a Rennir

- 2.8. Cytunwyd ar amcanion Cynllun Lles Cwm Taf gan bartneriaid tua dwy flynedd yn ol. Tua 'run adeg nododd y Weinyddiaeth Annibynol flaenoriaethau. O ganlyniad diwygiodd y Cyngor ei Ddogfen "Rhannu Amcanion" (Atodiad III). Dogfen Cypolwg yw hon sy'n cysylltu amcanion gwleidyddol, lleol a rhanbarthol yn y modd y bydd y Cyngor yn mabwysiadu'r pum ffordd o weithio wrth gyflawni'r amcanion i gwrdd a nodau lles cenedlaethol.
- 2.9. Mae holl elfennau'r ddogfen Rhannu Amcanion wedi cael eu hysbysu wrth ymgysylltu a chymunedau a'u datblygu mewn cydweithrediad a grwpiau rhanddeiliaid allweddol.
- 2.10. Gellir gweld aliniad clir rhwng y tair blaenoriaeth wleidyddol, y tri amcan rhanbarthol Cwm Taf a'r pedwar amcan lles lleol, ynghyd â synergedd yn y modd y mae'r rhain yn cael eu cyflwyno. Ym mhob elfen mae'r pum ffordd o weithio wrth wraidd y broses o gyflwyno; gan ganolbwyntio ar gyflawni'r saith nod.
- 2.11. Dechrau edafedd trwy ddarparu gwasanaeth ar draws y Cyngor yw ein Dogfen Rhannu Amcanion. Mae ein hamcanion a chanlyniadau wedi'i crynhoi yn strategaeth ar y dudalen (SAD). Y pum ffordd o weithio yw'r mecanwaith i gyflwyno a newid gwasanaethau. Adolygydd Prosiect a Fframwaith Rheoli'r Cyngor (gan gynnwys asesiad effaith integredig wedi'i ddiweddarau) a'r saith nod cenedlaethol, pedwar amcan lleol a phum ffordd o weithio wrth ei wraidd.
- 2.12. Mae Mae hyn yn golygu bod cynlluniau gweithredol, amcanion tim ac unigol yn cael eu gyrru gan y saith nod cenedlaethol, pedwar amcan lleol a phum ffordd o weithio. Yna gellir adlewyrchu hyn mewn cyfarfodydd unigol 1-2-1 a gwerthusiadau a gynhelir rhwng aelodau'r Staff a'u Rheolwr. Fel y cyfryw gall pob aelod o'r tim weld sut mae ei rol yn helpu cyflawni'r pedwar amcan lleol yn ogystal a'r saith nod cenedlaethol. Yn yr un modd, neu yn bwysicach fyth, mae ffyrdd o weithio yn cael eu hadolygu a'u newid a'r pum ffordd o weithio o'r Ddeddf yn cael eu gweithredu.

3. Amcanion Lles

Lles ym Merthyr Tudful

- 3.1. Fel rhan o'n dyletswydd lles o dan Ddeddf Lles Dyfodol Cenedlaethau (Cymru)2015, cyhoeddodd y Cyngor ei amcanion Lles ym mis Ebrill 2018 fel y nodir yn ein cynllun Blwyddyn 2 Ffocws ar y Dyfodol Lles yn ein cymuned.
- 3.2. Cynhaliwyd asesiad Lles i ddatblygu ein dealltwriaeth o sut i effeithio'n gadarnhaol ar les ac adnabod yr hyn sy'n bwysig i gymunedau.Cyhoeddwyd yr asesiad ym Mawrth 2017 a gellir ei weld ar Ein Cwm Taf².Yn ogystal buom yn gweithio â thrigolion i sefydlu dealltwriaeth sylfaenol o les goddrychol ym Merthyr Tudful.Roedd y wybodaeth hon yn helpu llunio amcanion lles a deall ymatebion posib i wella lles.
- 3.3. Mae dyletswydd ar y Cyngor i sicrhau bod ei amcanion lles wedi'i cynllunio i wneud y gorauo'i gyfraniad at gyflawni pob un o'r saith nod lles. Wrth wneud hynny, rhaid i'r Cyngor gymryd camau rhesymol wrth weithredu ei swyddogaethau i fodloni'r amcanion hynny.
- 3.4. Fel yr amlinelliwyd yn Natganiad Lles y Prif Weithredwr y llynedd mae ein hamcanion lles lleol wedi'i symleiddio o naw i bedwar. Mae hyn yn sicrhau bod mwy o ffocws ar gyflwyno a gwella atebolrwydd. Mae gan bob amcan lles ganlyniadau clir a fydd yn ein helpu i ymateb i ofynioncymunedol lleol a chyfrannu at y saith nod lles cenedlaethol.

Dechrau Gorau i Fywyd

Mae plant a phobl ifanc yn cael y dechrau gorau ac yn meddu ar y sgiliau y mae eu hangen arnynt i fod yn ddysgwyr llwyddiannus ac yn unigolion hyderus.

Bywyd Gwaith

Mae pobl yn teimlo cefnogaeth i ddatblygu'r sgiliau priodol i ddiwallu anghenion busnesau sydd â seilwaith datblygu, diogel, gan wneud Merthyr Tudful yn gyrchfan ddeniadol.

Lles Amgylcheddol

Mae cymunedau'n diogelu, gwella a hyrwyddo ein hamgylchedd a chefn gwlad.

Byw yn Iach

Mae pobl yn cael eu galluogi i fyw'n annibynnol yn eu cymunedau, lle maent yn ddiogel ac yn mwynhau iechyd corfforol a iechyd meddwl da.

² Gallwch ddarllen [asesiadau lles y boblogaeth](#) a'r [asesiadau lles ar wefan Ein Cwm Taf](#).

4. Amcan y Dechrau Gorau: Mae plant a phobl ifanc yn cael y dechrau gorau posib i fywyd ac yn meddu ar y sgiliau y mae eu hangen arnynt i fod yn ddysgwyr llwyddiannus ac yn unigolion hyderus³.

Blaenoriaeth yr amcan hwn yw sicrhau gwelliannau yng nghanlyniadau addysgol i blant a phobl ifanc.

- 4.1. Addysg yw un o'r rhagfynegyddion cliraf canlyniadau bywyd megis cyflogaeth, incwm a statws cymdeithasol ac mae'n rhagfynegi agweddau a llesiant. Mae'r amcan yn integreiddio'r daith addysgol gyflawn, o'r blynyddoedd cynnar hyd at y blynyddoedd gorfodol ac ôl 16. Mae'r amcan yn rhoi sgiliau a phriodolddau i blant a phobl ifanc i'w helpu gwella eu bywydau eu hunain.
- 4.2. Mae gwella cefnogaeth y blynyddoedd cynnar yn hanfodol wrth fynd l'r afael ag achosion profiadau niweidiol plentyndod a gwyddom eu bod yn cael effaith niweidiol ar iechyd a lles yn y dyfodol. Rydym yn diffinio blynyddoedd cynnar o'r cyfnod cyn geni i saith mlwydd oed. Mae'r diffiniad eang hwn yn cydnabod pwysigrwydd beichiogrwydd sy'n effeithio ar ganlyniadau a throsglwyddo i'r Ysgol Gynradd fel cyfnod pwysig ym mywydau plant.
- 4.3. Dengys tystiolaeth ymchwil ei fod o werth i ysgolion hybu byw yn iach a llesiant ymysg disgyblion. Mae disgyblion sydd â gwell iechyd a lles yn fwy tebygol o fod yn barod i ddysgu a chyflawni potensial yn academaidd.
- 4.4. Mae'r amcan lles hwn yn cynnig ymagwedd gyfannol a chynaliadwy tuag at ddiwallu anghenion lles plant ifanc. Er bod yr ymagwedd hon yn bwysig i bob plentyn, bydd yn fuddiol yn arbennig i blant sy'n wynebu anfantais neu sydd â risg uchel o ganlyniadau gwael yn hwyrach mewn bywyd. Y canlyniadau allweddol (neu gydrannau) ar gyfer Dechrau Gorau i Fywyd yw:
 - Mae'r plant yn byw mewn amgylchedd cartref bryfiol ac ysgogol;
 - Mae gan blant fynediad i addysg cyn-ysgol ac ysgol o safon uchel;
 - Gwella'r canlyniadau addysgol ar gyfer pob plentyn a pherson ifanc; a
 - Mae gan blant a phobl ifanc iechyd a lles da.
- 4.5. Cysylltir risg canlyniadau gwaeth i blant a theuluoedd â ffactorau sylfaenol gan gynnwys tlodi â lefelau cymwysterau isel y rhieni. Mae pwysau ehangach fel dyled, camddefnyddio sylweddau, tai gwael a diffyg cyflogaeth hefyd yn effeithio ar ddatblygiad plant a phobl ifanc.
- 4.6. Rhaid l'r Dechrau Gorau i Fywyd weithio ochr yn ochr a'n hamcanion lles eraill sy'n mynd i'r afael â'r ffactorau sylfaenol hyn, yn enwedig:

³ Mae'r nod llesiant hwn yn cydnabod hawl pob plentyn ifanc i gael perthnasoedd, amgylcheddau a gwasanaethau o ansawdd uchel, a bydd yn cyfrannu'n gryf at hyrwyddo a chynnal hawliau plant yn ôl diffiniad Confensiwn y Cenedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn.

- Bod pobl yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi i ddatblygu'r sgiliau sydd eu hangen i ddiwallu anghenion busnesau, gyda seilwaith datblygu, diogel yn gwneud Merthyr Tudful yn gyrchfan ddeniadol.
- Bod gan bobl yr hawl i fyw yn annibynnol yn eu cymunedau, lle maent yn ddiogel ac yn mwynhau iechyd corfforol a iechtd meddwl da.

4.7. Er mwyn manteisio i'r eithaf ar ein siawns o gyflawni'r dechrau gorau, bydd angen ymateb integredig ar draws ein holl amcanion lles trwy gymhwyso'r pum ffordd o weithio.

5. Mae pobl yn teimlo cefnogaeth i ddatblygu'r sgiliau priodol i ddiwallu anghenion busnesau sydd â seilwaith datblygu, diogel, gan wneud Merthyr Tudful yn gyrchfan ddeniadol

Blaenoriaeth yr amcan hwn yw datblygu'r amgylchedd a seilwaith er mwyn i fusnesau ffynnu

- 5.1. Mae ymchwil⁴ yn dangos bod pobl sydd heb unrhyw gymwysterau addysgol yn fwy tebygol o fod ag incwm cymharol isel a bod pobl nad ydynt mewn cyflogaeth heb unrhyw gymhwyster yn fwy tebygol o fod yn economaidd anweithgar. Mae yna hefyd dystiolaeth i awgrymu bod amgylchedd trefol a reolir yn dda a gwasanaethau lleol o ansawdd uchel yn bwysig i greu amodau sy'n ddeniadol i fuddsoddwyr busnes, ymwelwyr a thriolion lleol.
- 5.2. Pan fydd pobl leol yn siarad am ddiwylliant, cyfeirir ato'n aml fel cyfle i ddathlu. Mae adnewyddu Canol y Dref wedi dod yn ased ar gyfer cynnal gweithgareddau diwylliannol sy'n dod â phobl at ei gilydd fel Gŵyl Merthyr Rising, a Gŵyl Flynyddol Chilli Anhygoel. Mae cysylltiad uniongyrchol rhwng y cysylltiadau cymdeithasol hyn â gwelliannau mewn lles corfforol a meddyliol a gall helpu i fynd i'r afael â'r twf mewn unigedd cymdeithasol ac unigrwydd. Gall digwyddiadau diwylliannol hefyd helpu i hybu ffyniant y Fwrdeistref Sirol trwy ddenu ymwelwyr a thwristiaid, gan ddarparu cyfleoedd cyflogaeth a datblygu sgiliau.
- 5.3. Mae Bywyd Gwaith am gyflawni'r canlyniadau allweddol hyn sy'n cynnwys:
 - Merthyr Tudful yn gwireddu ei photensial economaidd lawn gyda gweithlu medrus a chyfleoedd cyflogi gwell
 - pobl yn gwerthuso ac yn mwynhau'r amgylchedd naturiol a'r amgylchedd adeiledig, yn gwarchod ac yn gwella ein hasedau diwyllianol i genedlaethau'r presennol a'r dyfodol; a
 - Mae gennym gymunedau cryf, gwydn a chefnogol lle mae pobl yn ysgwyddo cyfrifoldeb am eu gweithredoedd eu hunain a'r modd maen nhw'n effeithio ar eraill.

Yn dilyn adolygiad y canlyniadau a nodwyd ym Mlwyddyn 2 y Cynllun, ym Mlwyddyn 3 penderfynwyd ailffocysu ar ganlyniadau i gefnogi ymagwedd fwy integredig er mwyn diwallu rhain.

- 5.4. Cysylltir risg canlyniadau gwaeth a ffactorau sylfaenol eraill sy'n cynnwys tlodi a dyled, camdrin sylweddau, tai gwael a phryderon a gysylltir ag iechyd. Mae llawer o ymchwilwyr i dlodi yn defnyddio diffiniad ehangach sy'n awgrymu bod tlodi yn golygu diffyg asedau materol a iechyd yn ogystal a diffyg galluoedd megis ymdeimlad gymdeithasol, adnabyddiaeth ddiwylliannol, parch ac urddas ynghyd gwybodaeth ac addysg.

⁴ [JRF \(2015\) Monitoring Poverty and Social Exclusion 2015](#)

- 5.5. Rhaid i'r amcan hwn gydweithio ochr yn ochr â'n hamcanion lles eraill sy'n mynd i'r afael â'r ffactorau sylfaenol hyn, yn enwedig:
- Mae'r plant yn cael y dechrau gorau i fywyd ac maent yn meddu ar y sgiliau y mae angen iddynt fod yn ddysgwyr llwyddiannus ac yn unigolion hyderus;
 - Cymunedau'n diogelu, gwella a hyrwyddo ein hamgylchedd naturiol ac adeiledig a chefn gwlad; a
 - Mae gan bobl yr hawl i fyw'n annibynnol yn eu cymunedau, lle maent yn ddiogel ac yn mwynhau iechyd corfforol ac iechyd meddwl da.
- 5.6. Er mwyn cyflawni'r deilliannau a ddynodwyd oddi fewn i Fywyd Gwaith, bydd yn ofynnol cael ymateb integredig ar draws ein holl nodau llesiant drwy gymhwyso'r pum ffordd o weithio.

6. Nod Llesiant Amgylcheddol: Prosiect cymunedol, ehangu a hyrwyddo ein hamgylchedd a chefn gwlad.⁵

Blaenoriaeth yr amcan hwn yw gwella'r defnydd effeithiol o ddeunyddiau ac adnoddau trwy'r Tim Rheoli Gwastraff a chreu Cynllun Adfer Natur Cyntaf y Cyngor.

- 6.1. Dengys ymchwil fod amgylchedd naturiol iach a chefn gwlad yn cynnig manteision lluosog i bobl a bywyd gwyllt o well ansawdd aer, dŵr a thir, diogelu cynefinoedd a bioamrywiaeth well ac yn cael oblygiadau buddiol ar gyfer iechyd corfforol ac iechyd meddwl^{6, 7}. Felly, ffocws yr amcan lles hwn yw'r gwaith a wnawn â'n cymunedau i warchod, gwella a hyrwyddo'r amgylchedd a chefn gwlad.
- 6.2. Bydd y ffordd yr ydym yn ymddwyn tuag at yr amgylchedd a chefn gwlad yn ffactor hanfodol o ddyfodol cynaliadwy ym Merthyr Tudful oherwydd bydd y manteision o wella ein hamgylchedd i'w gweld ar draws ein holl amcanion lles. Rydym yn diffinio'r amgylchedd fel cefn gwlad a phob man gwyrdd (amgylchedd naturiol) a lleoliadau trefol (amgylchedd trefol) o fewn ffin y Cyngor. Mae'r diffiniad eang hwn o'r amgylchedd yn cydnabod pwysigrwydd natur mewn amgylcheddau gwledig a threfol.
- 6.3. Mae'r amcan lles hwn yn cynnig ymagwedd gyfannol a chynaliadwy tuag at gwrdd ag anghenion lles amgylcheddol ym Merthyr Tudful. Dylai'r anghenion hynny gael eu dehongli'n fras i gynnwys gwyrddfannau a chysylltedd ansawdd, gwarchod cynefinoedd a bioamrywiaeth, ecosystemau gwydn, cymeriad tirwedd ac atal llygredd. Er bod yr ymagwedd hon yn bwysig i'r amgylchedd yn gyffredinol, bydd yn arbennig o fudd i feysydd lle mae materion amgylcheddol neu risgiau allweddol. Mae'r canlyniadau allweddol ar gyfer Lles yr Amgylchedd yn cynnwys
 - Lleihau difrod amgylcheddol trwy atal llygredd;
 - Gwneud y gorau o ddefnydd effeithlon o ddeunyddiau ac adnoddau a ailgylchir trwy'r hierarchaeth wastraff;
 - Mae seilwaith a mannau agored o ansawdd dda a bioamrywiaeth ym Merthyr a
 - Hyrwyddo a chefnogi'r defnydd o ynni adnewyddadwy a charbon isel.
- 6.4. Mae amgylchedd diraddiedig yn golygu y bydd ein trigolion, cymunedau a busnesau yn llai wydn i risgiau amgylcheddol. Gan fod yr amgylchedd yn ffactor sylfaenol ac yn effeithio ar lawer o amcanion lles eraill, mae'r risgiau a gyflwynir gan amgylchedd diraddiedig hefyd yn cynnwys ystod o safbwyntiau economaidd, cymdeithasol, iechyd, diogelwch cymunedol a diwylliannol.

⁵ Y mae'n ofynnol yn ôl Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 fod y Cyngor yn ceisio cynnal a gwella bioamrywiaeth a hyrwyddo gwytnwch ecosystemau gan gymryd i ystyriaeth yr amrywiaeth rhwng ac oddi fewn i ecosystemau; graddfa ecosystemau; cyflwr ecosystemau (gan gynnwys eu strwythur a'u swyddogaeth) a hyblygrwydd ecosystemau.

⁶ [Chief Medical Officer Annual Report 2014-15](#)

⁷ [Life Course, Greenspace and Health, 2016.](#)

- 6.5. Rhaid i gymunedau ddiogelu, gwella a hyrwyddo'r amgylchedd a chefn gwlad a gweithio ochr yn ochr â'n hamcanion lles eraill i fynd i'r afael â'r ffactorau sylfaenol hyn, yn enwedig:
- Mae gan bobl yr hawl i fyw'n annibynnol yn eu cymunedau, lle maent yn ddiogel ac yn mwynhau iechyd corfforol ac iechyd meddwl da; a
 - Mae pobl yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi i ddatblygu'r sgiliau sydd eu hangen i ddiwallu anghenion busnesau, gyda seilwaith datblygu diogel yn gwneud Merthyr Tudful yn gyrchfan ddeniadol.

7. Mae pobl yn cael eu galluogi i fyw'n annibynnol yn eu cymunedau, lle maent yn ddiogel ac yn mwynhau iechyd corfforol a iechyd meddwl da

Blaenoriaeth yr amcan hwn yw sicrhau bod pobl yn gallu byw yn annibynnol ac yn ddiogel yn eu cymunedau.

- 7.1. Mae angen cymorth ar pobl i fyw'n annibynnol ac yn dda yn eu cymunedau am gyfnod hwy. Mae ymchwil a wnaed gan y Swyddfa Materion Anabledd yn awgrymu bod byw'n annibynnol yn darparu manteision mwy sylweddol ar lefel unigol na mathau confensiynol o ddarpariaeth gan wasanaethau. Mae yna hefyd dystiolaeth i awgrymu bod pobl hŷn sy'n byw yn lleol yn dymuno parhau i fyw yn eu cartrefi cyn belled ag y bo modd.
- 7.2. Mae'r cyswllt rhwng iechyd corfforol ac iechyd meddwl yn ddiamwys. Gall iechyd corfforol gwael arwain at iechyd meddwl gwael ac i'r gwrthwyneb. I'r gwrthwyneb, gall iechyd corfforol da wella cyflwr meddwl pobl; gall meddwl cryf ac iach wella ein gallu i ymdopi ag anwylderau corfforol yn fawr. Mae yna gorff cynyddol o dystiolaeth sy'n nodi bod natur yn darparu gwerth ychwanegol at fanteision Cgweithgaredd corfforol.
- 7.3. Mae teimlo'n ddiogel yn dylanwadu ar sut mae pobl yn gwerthfawrogi eu cymuned, ac mae'n bwysig i ansawdd bywyd pobl; yn aml yn gwneud y gwahaniaeth rhwng pobl sydd am fyw ac aros yn eu cymdogaeth ai peidio. Mae dystiolaeth i awgrymu bod adeiladu hyder a gwytnwch mewn unigolion a'u cymunedau yn gam pwysig tuag at wella lles.
- 7.4. Mae'r Amcan Byw yn iach yn ceisio adnabod a chynnig cefnogaeth effeithlon gynnar i oedolion, plant a'u teuluoedd sydd â risg o gyflawni canlyniadau gwael. Bydd mynd i'r afael â'r y problemau yn gynnar yn galluogi mwy o bobl i fyw yn annibynnol ac yn ddiogel yn eu cymunedau tra'n mwynhau iechyd corfforol ac iechyd meddwl da.
- 7.5. Pwysleisiwyd mewn adolygiad blynyddol 2018/2019 yr angen i goethi a mireinio ein canlyniadau allweddol. Mae hyn yn sicrhau bod y canlyniadau yn nodi'n glir yr hyn mae'r Amcan Byw yn iach yn ceisio ei gyflawni.
- 7.6. Y Canlyniadau Allweddol Hir dymor ar gyfer Byw yn Iach yw
 - Pobl yn byw yn ddiogel ac yn annibynnol yn eu cymunedau
 - Plant ac oedolion yn cael eu gwarchod rhag niwed ac yn teimlo'n ddiogel
 - Plant a phobl ifanc yn byw yn ddiogel gyda'u teuluoedd neu yn agos at gartref a wedi symud yn dda o fod yn blentyn i fod yn oedolyn

Yn dilyn adolygiad canlyniadau a nodwyd ym Mlwyddyn 2 y Cynllun, penderfynwyd ym Mlwyddyn 3 i ailffocysu ar ganlyniadau i gefnogi'r ymagwedd fwy integredig i ddiwallu rhain

- 7.7. Mae'n rhaid i'r amcan hwn weithio ochr yn ochr â'n holl amcanion lles eraill sy'n mynd i'r afael â'r ffactorau sylfaenol hyn, yn enwedig:

- Mae'r plant yn cael y dechrau gorau i fywyd ac maent yn meddu ar y sgiliau y mae angen iddynt fod yn ddysgwyr llwyddiannus ac unigolion hyderus;
- Mae pobl yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi i ddatblygu'r sgiliau sydd eu hangen i ddiwallu anghenion busnesau, gyda seilwaith datblygu, diogel yn gwneud Merthyr Tudful yn gyrchfan ddeniadol; a
- Cymunedau'n diogelu, gwella a hyrwyddo ein hamgylchedd naturiol a chefn gwlad.

8. Atodiad I: Saith Nod Lles

Nod	Disgrifiad o'r nod
Cymru ffyniannus	Cymdeithas arloesol, gynhyrchiol a charbon isel sy'n cydnabod cyfyngiadau'r amgylchedd byd-eang ac felly'n defnyddio adnoddau'n effeithlon ac yn gymesur (gan gynnwys gweithredu ar newid yn yr hinsawdd); ac sy'n datblygu poblogaeth fedrus ac addysgedig mewn economi sy'n creu cyfoeth ac yn darparu cyfleoedd cyflogaeth, gan ganiatáu i bobl fanteisio ar y cyfoeth a gynhyrchir trwy sicrhau gwaith gweddus.
Cymru wydn	Cenedl sy'n cynnal ac yn gwella amgylchedd naturiol bioamrywiol gydag ecosystemau gweithredol iach sy'n cefnogi gwydnwch cymdeithasol, economaidd ac ecolegol a'r gallu i addasu i newid (er enghraifft newid yn yr hinsawdd).
Cymru iachach	Cymdeithas lle mae lles corfforol ac iechyd meddwl pobl yn cael ei hyrwyddo i'r eithaf a lle y deallir dewisiadau ac ymddygiadau sydd o fudd i iechyd y dyfodol .
Cymru fwy cyfartal	Cymdeithas sy'n galluogi pobl i gyflawni eu potensial ni waeth beth yw eu cefndir neu eu hamgylchiadau (gan gynnwys eu cefndir ac amgylchiadau cymdeithasol economaidd).
Cymru o gymunedau cydlynol	Cymunedau deniadol, hyfyw, diogel ac wedi'u cysylltu'n dda.
Cymru o ddiwylliant bywiog ac iaith Gymraeg ffyniannus	Cymdeithas sy'n hyrwyddo ac yn amddiffyn diwylliant, treftadaeth a'r iaith Gymraeg, ac sy'n annog pobl i gymryd rhan yn y celfyddydau, a chwaraeon a hamdden.
Cymru sy'n gyfrifol yn fyd-eang	Cenedl sydd, wrth wneud unrhyw beth i wella lles economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru, yn ystyried a all wneud y fath beth gyfrannu'n gadarnhaol at les byd-eang.

9. Atodiad II: Y Pum Ffordd o Weithio

Mae Deddf LICD (WFG) yn sefydlu 'egwyddor datblygu cynaliadwy' (y pum ffordd o weithio) sy'n dweud wrth sefydliadau sut i fynd ati i gyflawni eu dyletswydd o dan y Ddeddf. Mae unrhyw gyfeiriad at gorff cyhoeddus sy'n gwneud rhywbeth "yn unol â'r egwyddor datblygu gynaliadwy" yn golygu bod yn rhaid i'r corff weithredu mewn modd sy'n ceisio sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb gyfaddawdu gallu cenedlaethau'r dyfodol i gwrdd â'u anghenion eu hunain.

Wrth wneud eu penderfyniadau rhaid i Gyrrff Cyhoeddus sicrhau eu bod yn ystyried y modd y gallent effeithio ar y bobl fydd yn byw yng Nghymru yn y dyfodol.

Mae pum peth y mae angen i gyrrff cyhoeddus eu hystyried i ddangos eu bod wedi cymhwyso'r pum ffordd o weithio . Bydd dilyn y ffyrdd hyn o weithio yn ein helpu i gydweithio'n well, gan osgoi ailadrodd camgymeriadau o'r gorffennol a mynd i'r afael â rhai o'r heriau hirdymor yr ydym yn eu hwynebu.



Tymor Hir

Pwysigrwydd cydbwysu anghenion tymor byr â'r angen i ddiogelu'r gallu i ddiwallu anghenion hirdymor hefyd.



Atal

Sut mae gweithredu fel y gall atal problemau rhag digwydd neu waethygu helpu cyrrff cyhoeddus i gwrdd â'u hamcanion.



Integreiddio

Ystyried sut y gall amcanion lles y corff cyhoeddus effeithio ar bob un o'r nodau lles, ar eu hamcanion eraill, neu ar amcanion cyrrff cyhoeddus eraill.



Cydweithredu

Gweithio mewn cydweithrediad ag unrhyw berson arall (neu rannau gwahanol o'r corff ei hun) a allai helpu'r corff i fodloni ei amcanion lles.



Ymrwymiad

Pwysigrwydd cynnwys pobl sydd â diddordeb mewn cyflawni nodau lles, a sicrhau bod y bobl hynny yn adlewyrchu amrywiaeth yr ardal y mae'r corff yn ei gwasanaethu.

10. Atodiad III: Ein Cyd-Weledigaeth



EIN CYD-WELEDIGAETH

“GWEITHREDU HEDDIW AR GYFER GWELL YFORY”

Y Cymru rydym ni eisiau:

Cymru ffyniannus	Cymru wydn	Cymru iachach	Cymru mwy cyfartal	Cymru o gymunedau cydlynol	Cymru o ddiwylliant bywiog a iaith Gymraeg ffyniannus	Cymru sy'n gyfrifol yn fyd-eang
------------------	------------	---------------	--------------------	----------------------------	---	---------------------------------

Y weledigaeth a rennir ar gyfer Merthyr Tudful i gyrraedd yno:

I gryfhau sefyllfa Merthyr Tudful fel canolfan ranbarthol Blaenau'r Cymoedd, a bod yn lle i fod yn falch ohono, ble:

Mae pobl yn dysgu a datblygu sgiliau i gyflawni eu huchelgais,
 Mae pobl yn byw, yn gweithio, yn cael bywyd diogel, iach a chyflawn,
 Mae pobl yn ymweld, yn mwynhau ac yn dychwelyd

Sut y bydd CBS Merthyr Tudful yn gweithio?



Tymor Hir



Atal



Integreiddio



Ymglymiad



Cydweithredu

Sut fyddwn ni'n cydweithio i gyflawni'r Weledigaeth A Rennir a chyflawni ein nodau

Canolbwyntio ar y Dyfodol	Cynllun Lles y BGC	Blaenoriaethau Gwleidyddol
<p>Dechrau Gorau i Fwyd Mae gan blant a phobl ifanc y dechrau gorau i fywyd ac mae ganddynt y sgiliau sydd eu hangen arnynt i fod yn ddysgwyr llwyddiannus ac yn unigolion hyderus.</p>	<p>Gwydnwch a Lles y Gymuned Hyrwyddo cymunedau diogel, hyderus, cryf a ffyniannus sy'n gwella lles trigolion ac ymwelwyr ac adeiladu ar ein hasedau cymunedol.</p>	<p>Byddwn yn gofalu am ein holl ddinasyddion trwy ddarparu addysg a gofal cymdeithasol o ansawdd fforddiadwy sy'n galluogi pawb i fyw eu bywydau i'w llawn botensial.</p>
<p>Bywyd Gwaith Mae pobl yn teimlo cefnogaeth i ddatblygu'r sgiliau priodol i ddiwallu anghenion busnesau sydd â seilwaith datblygu, diogel, gan wneud Merthyr Tudful yn gyrchfan ddeniadol.</p>	<p>Ffordd o fyw, iechyd a bregusrwydd I helpu pobl i fyw bywydau hir ac iach a goresgyn unrhyw heriau.</p>	<p>Byddwn yn annog ffyrdd o fyw bywiog a hyrwyddo lles.</p>
<p>Lles Amgylcheddol Mae cymunedau'n diogelu, gwella a hyrwyddo ein hamgylchedd a chefn gwlad.</p>	<p>Economi a Seilwaith I dyfu economi leol gref gyda chluant cynaliadwy sy'n denu pobl i fyw, gweithio a chwarae yng Nghwm Taf.</p>	<p>Byddwn yn cefnogi amgylchedd ac economi cryf, cynaliadwy, amrywiol a llwyddiannus.</p>
<p>Byw yn Dda Mae pobl yn cael eu grymso i fyw'n annibynnol yn eu cymunedau, lle maent yn ddiogel ac yn mwynhau iechyd corfforol a meddyliol da.</p>	<p>Mynd i'r afael ag unigrwydd ac unigedd (amcan trawsbynciol) Byddwn yn gweithio mewn ffyrdd newydd i sianelu cryfderau'n cymunedau, gan gynnwys gwirfoddolwyr, i fynd i'r afael yn fwy effeithiol â'r unigrwydd a'r unigedd sy'n aml yn bodoli o fewn llawer ohonynt.</p>	<p style="text-align: center;"><i>Merthyr Tudful ... Lle i ymfalchïo ynddi Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful</i></p>